# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

Cofnodion: Rhagfyr 2018

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
12 hanner dydd - 1.15pm, Dydd Mawrth 4 Rhagfyr
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc: Adroddiad gofal dementia siaradwyr Cymraeg

## Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Ioan Bellin (ar ran Helen Mary Jones AC)

Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg); Lowri Williams (swyddfa Comisiynydd y Gymraeg)

Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp trawsbleidiol); Sue Phelps, Huw Owen, (Cymdeithas Alzheimer Cymru); Janet Bevan (BIP Cwm Taf); Catrin Edwards (Hospice UK); Daisy Cole (swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Chineze Ivenso (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion); Oliver John (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion); Ceri Higgins, Nigel Hullah (pobl yr effeithir arnynt gan ddementia / gwirfoddolwyr / Gweithgor Dementia y 3 Gwlad); Natalie Elliott (Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd); Iwan Williams (Gofal Cymdeithasol Cymru); Beti George; Irina Erchova (Y Gymdeithas Strôc / Prifysgol Caerdydd); Daniel Jones (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion)

## Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod

## Y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad i ofal ysbyty

- Rhoddodd **Sophie Douglas** y wybodaeth ddiweddaru am y cynnydd hyd yn hyn:
  - Cafwyd 168 o ymatebion i arolwg ar-lein. Roedd 50% o ymatebion gan ofalwyr ac aelodau teulu pobl sy'n byw gyda dementia, 25% o ymatebion gan gyn-ofalwyr
  - Cafwyd sylw da yn y cyfryngau - ceisio rhoi 'gwthiad' yn y wasg eto yn y flwyddyn newydd
  - Mae angen i sefydliadau proffesiynol ymateb. Eglurodd **Natalie Elliott** fod Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd yn bwriadu ymateb ond ymddengys mai Mehefin yw'r dyddiad cau. Cytunodd **Sophie Douglas** i gadarnhau gyda'r grŵp [bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chylchredeg]
  - Gofynnodd **Rosslyn Offord** a ellid llunio ymateb yn ystod cyfarfod grŵp Cymdeithas Seicolegol Prydain. Cytunodd **Sue Phelps** a **Sophie Douglas** y gallai Cymdeithas Alzheimer Cymru hwyluso
  - Gofynnodd **Daisy Cole** a oes amserlen ar gyfer casglu data (er enghraifft y 3-5 mlynedd diwethaf) a holodd am y pryderon diogelu a godwyd drwy ymatebion i'r arolwg. Cytunodd **Sophie Douglas** bod angen cadarnhau hyn

## Diweddariad ysgrifenedig gan Dr Liz Davies - Cadeirydd y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia

- Cytunodd y grŵp nad yw'r llythyr yn darparu cymaint o fanylion ar ddyraniad cyllid ag y gobeithiwyd (cafodd copi o'r llythyr ei ddosbarthu gyda'r cofnodion)
- **Camau gweithredu: Lynne Neagle** i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y grŵp i ofyn i weinidog fynychu cyfarfod y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol i roi eglurder ynghylch cyllid a goruchwylio gweithrediad
- Rhannwyd llythyr gan y Grŵp Bord Gron ar Dementia at Dr Davies yn codi pryderon ynghylch y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn y cyfarfod (dosbarthwyd copi gyda'r cofnodion)

## Cyflwyniad gan Meri Huws a Lowri Williams

Cyflwynodd Meri Huws a Lowri Williams yr adroddiad ymchwil a luniwyd ar y cyd rhwng y Gymdeithas Alzheimer a Chomisiynydd yr Gymraeg.

Dosbarthwyd nodiadau gyda'r cofnodion.

## Pwyntiau trafod allweddol

- Pwysleisiodd **Meri Huws** bwysigrwydd canolbwyntio ar weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad.
- Tynnodd **Rosslyn Offord** a **Sue Phelps** sylw at heriau o ran recriwtio a'r gofyniad i siarad Cymraeg
- Cytunodd **Meri Huws** fod yn rhaid ystyried y Gymraeg fel sgil gwaith a rhoi statws iddi - a bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg
- Tynnodd **Ceri Higgins** sylw at y ffaith bod cannoedd o ofalwyr di-dâl yn cefnogi aelodau teulu, a bod gwahaniaeth o ran gallu i siarad Cymraeg rhwng cenedlaethau mewn rhai teuluoedd - sut allwn ni eu cefnogi?
- Dywedodd **Meri Huws** nad ydym o reidrwydd angen Cymraeg 'soffistigedig' i helpu - mae ychydig yn mynd yn bell
- Gwnaeth **Natalie Elliott** sylw ar yr effaith y caiff dementia ar iaith a'r ffaith y gall siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ddychwelyd i siarad Cymraeg yn unig, a dyna pam bod yr adroddiad hwn yn bwysig
- Awgrymodd **Sue Phelps** y dylid lobïo Llywodraeth Cymru ynghylch y rhaglen waith ‘hawliau'n cael eu troi'n realiti'

- **Camau gweithredu:** Lynne Neagle i ysgrifennu at gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i fynd ar drywydd yr adroddiad, ac at Lywodraeth Cymru.

## Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 11 Mehefin 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead